**System Gyfreithiol Newydd i Gymru**

Mae angen system gyfreithiol hollol newydd yng Nghymru i ddatblygu ein diwylliant a gwerthoedd cymdeithasol nodedig.  Mae angen system Gyfreithiol Sifil Cymraeg i ddisodli'r system Gyfreithiol Cyfraith Cyffredin Saesneg.  Mae'r system Gyfraith Gyffredin Saesneg yn system costus, sydd wedi e'i selio ar wrthwynebiaeth a gwerthoedd unigoliaethol.

Yn lle y system yma mae angen sefydlu system gyda'r priodoleddau dilynol:-

- **System Fwy Trefnus a Hygyrch**.
  Dyle'r gyfraith gael e'u cyfundrefnu i sicrhau bod yr egwyddorion allweddol a materion manwl pwysig yn glir ac yn ddealladwy.  Dyle'r system gael e'u cyhoeddi ym modd syml ac yn agor i drafodaeth a datblygiadau rhesymol.
- **System Anwrthwynebus**
  Mae'r system Cyfraith Gyffredin yn rhy wrthwynebus ynglŷn â materion cyfiawnder troseddol.  Mae angen broses annibynnol barnwrol gyda'r pwerau i weithredu ymchwiliad i benderfynu os oes rhaid anfon achosion i brawf llawn
- **System Symledig ym Materion Cyfraith Tir a Chyfraith Fasnachol**
  Dyle'r system gyfreithiol cael eu hail-drefnu i greu ffurfiau cyfreithiol sydd yn fwy syml i weithredu ac sydd yn mynd i ostwng costau trafodaethol.  Mae hynny yn golygu fe fydd rhaid defnyddio fwy ar ffurf sefydledig gyfreithiol ynglŷn â gweithgareddau masnachol, gyda rôl fwy pwysig i'r barnwr os ydy unrhyw ddadl yn cyrraedd y llysoedd.
- **Barnwriaeth Annibynnol o'r Proffesiwn Cyfreithiol**
  Mae angen creu corff barnwriaeth sydd yn annibynnol o'r proffesiwn cyfreithiol gyffredinol.  Fe fydd y corff barnwriaeth newydd yn gweithredu fel gyrfa arbennig, gyda'r posibilrwydd o ymuno ar ôl prifysgol ac ar ôl cymryd arholiadau arbennig.  Fe fydd y drefn yma yn gostwng costau ac yn helpu i drefnu hyfforddant arbennig i'r rôl.
- **Cwrsiau Newydd ym Mhrifysgolion Cymru**
  Mae angen creu dau gwrs cyfraith wahanol ym mhrifysgolion Cymru sef Cyfraith Sifil Cymraeg a Chyfraith Gyffredin Saesneg.